Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Cynllun Corfforaethol - Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026

Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau

Cynnwys

Cyflwyniad y Prif Weithredwr	3
Ein Diben	4
Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026	4
Ein Gweledigaeth	5
Ein Gwerthoedd	6
Ein Strategaeth	7
Ein Hadnoddau	10
Ein Perfformiad	11
ATODIAD A: Model Rhesymeg – mewnbynnau, allbynnau, canlyniadau	12
ATODIAD B: Organogram	14

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Gyda balchder mawr ac ymdeimlad o bwrpas y cyflwynaf ichi'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol am ail flwyddyn ei chylch gwaith presennol, yn ymestyn o 2022 i 2026. Wrth i ni gychwyn ar y daith drawsnewidiol hon, mae'n hanfodol i ni fyfyrio ar y cerrig milltir yr ydym wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf a gosod ein gweledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

Er gwaethaf yr ansicrwydd a ddaeth yn sgil digwyddiadau byd-eang, arhosodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gadarn yn ei hymrwymiad i hyrwyddo arweinyddiaeth addysgol ledled y wlad. Galluogodd ymroddiad ein tîm a chefnogaeth ddiwyro ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ni i lansio mentrau sydd eisoes wedi dechrau siapio'r dirwedd addysgol yn llwyddiannus.

Rydym yn parhau i fod yn gadarn yn ein hymrwymiad i feithrin arweinwyr addysgol llawn gweledigaeth a all ysgogi newid cadarnhaol o fewn eu sefydliadau. Mae ein ffocws ar sicrhau ansawdd darpariaeth datblygu arweinyddiaeth a phwysigrwydd datblygu mewnwelediad ac arweinyddiaeth meddwl yn parhau i fod yn ganolog i'n pwrpas a thrwy ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth byddwn yn grymuso arweinwyr ar draws pob sector addysgol i lywio heriau cymhleth, arwain gydag arloesedd a bod yn benderfyniad gwybodus.

Yn yr ysbryd o hyrwyddo tirwedd addysgol amrywiol a chynhwysol, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith ein hunain ac yn y ffordd yr ydym yn ceisio dylanwadu ar waith eraill. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol.

Wrth i ni symud ymlaen, hoffwn estyn fy niolch i'n tîm ymroddedig, ein haelodau bwrdd, ein holl randdeiliaid a'r grŵp cryf o Gymdeithion sydd wedi cyfrannu at gynnydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol hyd yma. Gyda'n gilydd byddwn yn parhau i fanteisio ar y cyfleoedd i gael effaith barhaol ar fywydau dysgwyr ar draws y wlad.

Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae arweinwyr yn ffynnu a strategaethau arweinyddiaeth gynaliadwy yn ysgogi hunanwelliant. Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n uchel ei pharch yn rhyngwladol am y ffordd y mae arweinyddiaeth effeithiol wrth galon system addysg ragorol.

Mewn ysbryd o gydweithio a gweledigaeth ar y cyd, gadewch inni weithio gyda'n gilydd i wireddu'r nodau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol hwn. Drwy gyfuno ein harbenigedd, ein hangerdd a'n hymroddiad ar y cyd, gallwn greu dyfodol mwy disglair i arweinyddiaeth addysgol ac, yn y pen draw, y dysgwyr rydym yn eu gwasanaethu.

Tegwen Ellis
Prif Weithredwr
Awst 2023

Ein Diben

Sefydlwyd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn 2018, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Fel corff hyd braich, ei brif rôl yw cyflawni cyfrifoldebau a bennwyd yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru.

Ei brif bwrpas yw:

- Cyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ym mhob rhan o'r system addysg drwy sicrhau cydlyniad ac ansawdd ar gyfer yr amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru
- Gweithredu fel arweinydd agweddau; gan ddatblygu, cyfleu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru.
- Bod yn aelod uchel ei barch a gweithgar o'r haen ganol addysgol ac yn ddolen gyswllt gyntaf i'r gweithlu addysgol ar faterion arweinyddiaeth.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn nodwedd ganolog o'r daith diwygio addysg a nodir yn Cenhadaeth Ein Cenedl: Safonau uchel a dyheadau i bawb, a chaiff ei nodi gan Lywodraeth Cymru fel ysgogydd allweddol Amcan 4: Addysgu ac Arweinyddiaeth o Ansawdd Uchel.

Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026

Bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr a llunwyr polisi o bob rhan o system addysg Cymru i greu'r amodau fel y gall arweinyddiaeth addysgol ffynnu.

Bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol:

- yn sefydliad **gweladwy ac uchel ei barch** gyda **rôl unigryw, wedi'i mynegi'n glir a chroyw a'i deall yn eang** o fewn addysg yng Nghymru
- yn seiliedig ar drefniadau **llywodraethu cadarn** a threfn **weithredol effeithiol a hyblyg**
- **cefnogi** a **datblygu arweinwyr** ac **arweinyddiaeth** drwy **gydweithio** â **rhanddeiliaid** a **phartneriaid**, gan ymwreiddio **arweinyddiaeth** fel maes **blaenoriaeth hirdymor** sy'n **pontio cylchoedd gwleidyddol**

O'r sylfaen hon, bydd y sefydliad yn gwneud cyfraniad allweddol at system addysg y genedl erbyn 2026.

Trwy greu'r amodau sydd eu hangen i **ysbrydoli arweinwyr**, bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn **cyfoethogi bywydau** ein plant a'n pobl ifanc ledled Cymru, gan eu helpu i ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; yn unigolion iach a hyderus; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; ac yn ddinasyddion moesegol, gwybodus.

Ein Gweledigaeth

Sicrhau Ansawdd

Mae pob arweinydd yn manteisio ar amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol arloesol teg ac o ansawdd uchel

Arloesedd

Mae arweinwyr addysgol yn creu a chynnal diwylliant arloesi gwirioneddol, gan arloesi gyda dulliau newydd o arwain

Arweinyddiaeth System

Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn sbarduno hunan-welliant

Datblygu Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr yn cael eu grymuso, eu hysbrydoli a'u cymell

Adnoddau

Mae adnoddau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy'n benodol i Gymru, wedi'u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu gweithwyr proffesiynol i herio a gwella eu dulliau eu hunain o arwain yn barhaus

Mewnwelediad

Mae polisi ac ymarfer arweinyddiaeth wedi'i wreiddio ac yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan ymchwil a thystiolaeth o Gymru a gwledydd eraill

Lles

Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi'n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth cynaliadwy a gwydn a all fod yn sbardun allweddol ar gyfer newid systemig parhaus

Datblygu Gweithlu Strategol

Mae rolau arwain yn ddeniadol ac arweinwyr yn cael eu hysgogi i aros a datblygu yn y proffesiwn

Ein Gwerthoedd

Mae gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol hefyd wedi'i lywio gan ein hymrwymiad i'r canlynol:

CYDWEITHREDOL
Fel sefydliad bach, ni fyddwn yn cyflawni dim drwy weithio ar ein pennau ein hunain. Yn hytrach, partneriaethau agos gyda'r proffesiwn a chyda'n sefydliadau cymheiriaid yn yr haen ganol fydd ein dull diofyn o weithio

CYNHWYSOL
Byddwn yn gweithio gydag ac ar ran yr holl arweinwyr addysgol, beth bynnag fo'u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa, cefndir daearyddol ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol

SEFYDLIAD SY'N DYSGU
Byddwn yn adolygu ein gwaith gan ddefnyddio Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth a byddwn yn addasu ein hymagwedd strategol, ffyrdd o weithio a dyrannu adnoddau i adlewyrchu heriau a chyfleoedd newydd

CYMRAEG 2050
Byddwn yn gweithio gyda ac ar ran Cymru gyfan i helpu i gyflawni Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



O DDIFRIF AM LES
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ffynnu pan gefnogir lles. Byddwn yn blaenoriaethu lles pob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ein staff ein hunain a'n Cymdeithion

SEFYDLIAD SY'N GWRANDO
Mae clywed a gwrando ar lais arweinyddiaeth addysgol wrth galon ein gwaith

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH
Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith ein hunain ac yn y ffordd yr ydym yn ceisio dylanwadu ar waith eraill. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol

Mae holl staff yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, aelodau ei Bwrdd, secondeion a Chymdeithion wedi ymrwymo i weithio mewn ffyrdd sy'n gyson â saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef:

- Anhunanoldeb
- Uniondeb
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Bod yn agored
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

Ein Strategaeth

Er mwyn gwireddu Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi datblygu dull strategol sy'n nodi ffrydiau gwaith a gweithgareddau mewn tri maes blaenoriaeth.

Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd

Ein nod yw:

Gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd y ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth yng Nghymru, gan sicrhau bod arweinyddiaeth system effeithiol yn cael ei datblygu a'i defnyddio

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynnal ystod o weithgareddau o fewn pedwar ffrwd waith:

Ffrwd waith		Gweithgaredd (enghreifftiau)
1.1	Sicrhau Ansawdd	• Proses gymeradwyo ar gyfer darpariaeth datblygu arweinyddiaeth • Monitro darpariaeth a gymeradwywyd yn rheolaidd
1.2	Arloesedd	• Cronfa arloesi i gefnogi dulliau newydd o ddatblygu arweinyddiaeth • Gweithdai arloesi i ysgogi meddwl a gweithredu yn arloesol ymhlith arweinwyr addysgol
1.3	Arweinyddiaeth System	• Meithrin gallu o fewn y system drwy recriwtio, datblygu a defnyddio Cymdeithion
1.4	Datblygu Arweinyddiaeth	• Ystod o gyfleoedd i arweinwyr gyfarfod, trafod materion, syniadau a gwaith sy'n canolbwyntio ar bryderon cyffredin

Nodir cynlluniau gweithgareddau manwl a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob ffrwd waith yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn.

Arweinyddiaeth Mewnwelediad a Meddwl

Ein nod yw:

Llywio polisi ac arferion arweinyddiaeth drwy fynediad at y dystiolaeth a'r syniadaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol (a mynediad at ddehongliad ohonynt), gan sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yn cael ei chynnal fel ffocws polisi hirdymor yng Nghymru

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynnal ystod o weithgareddau o fewn pedwar ffrwd waith:

Ffrwd waith		Gweithgaredd (enghreifftiau)
2.1	Adnodd Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Arweinwyr Addysgol	• Adnodd *Arwain Dysgu Proffesiynol* • Adnoddau ar-lein rhyngweithiol gan gynnwys podlediadau, ffilm ac astudiaethau achos
2.2	Mewnwelediad ar gyfer Arweinwyr Addysgol a Llunwyr Polisi	• Comisiynau ymchwil newydd ac adolygiadau beirniadol o lenyddiaeth academaidd a pholisi rhyngwladol
2.3	Lles Arweinwyr Addysgol	• Arolwg ac adroddiad cenedlaethol • Cynigion strategol ar gyfer Lles Arweinwyr Addysgol
2.4	Datblygu'r Gweithlu Strategol	• Cynigion strategol ar gyfer newid • Casglu a dadansoddi data recriwtio a chadw

Nodir cynlluniau gweithgareddau manwl a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob ffrwd waith yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn.

Corfforaethol

Ein nod yw:

Cynnal yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru fel sefydliad sydd â threfniadau llywodraethu cadarn a swyddogaeth weithredol effeithiol, gyda rôl weladwy, unigryw, wedi'i mynegi'n glir a chroyw a'i deall yn eang o fewn system addysg Cymru

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynnal ystod o weithgareddau o fewn pedwar ffrwd waith:

Ffrwd waith		Gweithgaredd (enghreifftiau)
3.1	Llywodraethu Effeithiol	• Rheoli risg • Craffu ariannol • Archwilio mewnol ac allanol
3.2	Swyddogaeth Weithredol	• Cynllunio strategol a gweithredol • Datblygiad proffesiynol • Rheolaeth weithredol a rheolaethau mewnol
3.3	Cyfathrebu a Marchnata	• Mwy o amlygrwydd drwy gyfathrebu uniongyrchol • Gwrando cymdeithasol • Ymgysylltu digidol
3.4	Gweithio fel Rhanddeiliad ac mewn Partneriaeth	• Cytundebau partneriaeth • Grwpiau ffocws ac ymarferion ymgynghori • Cynadleddau a gweminarau

Nodir cynlluniau gweithgareddau manwl a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob ffrwd waith yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn.

Mae'r berthynas rhwng y meysydd blaenoriaeth, ffrydiau gwaith a'r gweithgareddau hyn a chanlyniadau hirdymor ein gwaith, wedi'i grynhoi ym **Model Rhesymeg yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol,** sydd wedi'i gynnwys fel ATODIAD A.

Ein Hadnoddau

Cyfalaf proffesiynol yw'r prif adnodd y gall yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol alw arno er mwyn cyflawni Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026. Pobl - y rhai sy'n cyfrannu'n ffurfiol at waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fel aelodau staff a Chymdeithion, a'r rhai sy'n ein cefnogi ni'n llai ffurfiol, fel ffrindiau, partneriaid a rhanddeiliaid, sy'n ein gyrru ymlaen.

Mae Bwrdd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad ac mae'n cynnwys unigolion sydd â phrofiad helaeth ac amrywiol yn y maes addysg a thu hwnt iddo. Mae'r holl fanylion am aelodaeth gyfredol y bwrdd ar gael ar ein gwefan.

Dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol dîm bach y mae ei gyfrifoldebau'n cyd-fynd â'r tri maes blaenoriaeth a amlinellir uchod. Mae'r organogram staff presennol wedi'i gynnwys yn ATODIAD B. Mae proffiliau staff llawn i'w gweld yma.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn penodi carfan flynyddol o Gymdeithion, pob un ohonynt yn uwch arweinwyr addysgol gweithredol presennol, y mae pob un ohonynt yn gweithio gyda ni yn ffurfiol am gyfnod o ddwy flynedd. Mae ein Cymdeithion hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol gael mynediad at eu harbenigedd a'u gwybodaeth fel arweinwyr addysgol presennol, adnodd amhrisiadwy sy'n sicrhau bod llais y proffesiwn yn cael ei glywed yn ein holl waith cynllunio, gweithgarwch a myfyrio. Mae manylion y Cymdeithion ar gael yma.

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gallu cael mynediad at syniadau, cymorth a deialog gan y system addysg gyfan drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy ei Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae manylion y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gael yma. Mae aelodau'r grŵp yn helpu'r sefydliad i wneud y canlynol:

- Dylanwadu ar syniadau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol
- Cefnogi a herio gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol – gan wella prosesau cymeradwyo, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil a chomisiynu
- Sicrhau bod arweinwyr ar draws y sectorau addysg yn teimlo bod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn eu cynrychioli nhw ac yn eiddo iddyn nhw

Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw un o sylfaenwyr Consortiwm Arweinyddiaeth Addysgol y Tair Gwlad, gyda'r Coleg Arweinyddiaeth Addysgol yr Alban (bellach yn rhan o Lywodraeth yr Alban) a'r Ganolfan Arweinyddiaeth Ysgol yn Iwerddon. Mae'r rhwydwaith hwn yn caniatáu i'n gwaith gael ei lywio a'i herio gan ymarfer rhyngwladol wrth ddatblygu arweinyddiaeth addysgol.

Ein Perfformiad

Fel Sefydliad sy'n Dysgu, mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn casglu gwybodaeth yn gyson am effaith ei gwaith er mwyn adlewyrchu ac addasu ei dull gweithredu ar lefel strategol a gweithredol.

Ochr yn ochr â gwerthusiad allanol o effaith ein gwaith, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru, rydym yn defnyddio Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth i nodi a dysgu'r gwersi o'n gweithgarwch fel y gallwn wella dros amser, gan sicrhau ein bod yn creu effaith sy'n cyfrannu at wireddu Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth yn cynnwys:

- Arolygon o gyfranogwyr ym mhob un o weithgareddau'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Casglu data ar ymgysylltu, gan gynnwys yn ddigidol
- Adolygiadau mewnol cyfnodol o'n gweithgarwch, gan gynnwys cyfweliadau ffurfiol ac anffurfiol â rhanddeiliaid
- Gwerthusiadau annibynnol o weithgareddau allweddol a gomisiynwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan gynnwys y broses gymeradwyo a'r model Cymdeithion
- Ymchwil gan ymchwilwyr academaidd annibynnol, gan gynnwys drwy ein Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol cydweithredol / ysgoloriaeth ymchwil ddoethurol Llywodraeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd
- Adolygiadau blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol a dogfennau strategol a gweithredol

MEWN-BYNNAU

Pobl

- Bwrdd
- Gweithrediaeth
- Secondeion
- Cymdeithion
- Rhanddeiliaid
- Partneriaid

Cyllid

- Grant Llywodraeth Cymru

Gwerthoedd

- Cydweithredol
- Cynhwysol
- Cymraeg 2050
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Sefydliad sy'n Gwrando
- O Ddifrif Am Les
- Sefydliad sy'n Dysgu

ALLBYNNAU / CANLYNIADAU

Meysydd blaenoriaeth	Ffrydiau gwaith	Tymor byr	Tymor canolig	Hirdymor (Ein Gweledigaeth ar gyfer 2026)
Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd	1.1 Sicrhau Ansawdd	Mae ystod eang o ddarpariaeth yn cael ei chymeradwyo, a bylchau a meysydd o ddiffyg gwasanaeth wedi'u nodi. Mae fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth a gymeradwywyd yn cael ei weithredu	Mae'r ddarpariaeth a gymeradwywyd ar gyfer arweinwyr addysgol yn cael ei ddeall yn dda a'i ddefnyddio'n eang	Casgliad cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol teg, arloesol, o'r radd flaenaf sy'n cael eu defnyddio gan bob arweinydd
	1.2 Arloesedd	Ysgogir dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu arweinyddiaeth	Mae meddwl a gweithredu arloesol yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu	Mae arweinwyr addysgol yn meithrin ac yn cynnal diwylliant arloesi gwirioneddol, gan arloesi gyda dulliau newydd o arwain
	1.3 Arweinyddiaeth System	Mae sawl carfan o Gymdeithion yn mynd trwy fodel arweinyddiaeth system sy'n datblygu ac yn cael effaith fesuradwy ar y system addysg y tu hwnt i'w sefydliadau eu hunain	Mae dealltwriaeth ehangach a thystiolaeth gynyddol o ymarfer arweinyddiaeth system	Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn sbarduno hunanwella
	1.4 Datblygu Arweinyddiaeth	Darperir amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth	Mae arweinwyr yn manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cyfrannu at alluoedd proffesiynol	Mae arweinwyr wedi'u grymuso, ysbrydoli a'u cymell
Arweinyddiaeth Mewnwelediad a Meddwl	2.1 Adnoddau Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Arweinwyr	Cyhoeddir a hyrwyddir adnoddau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Mae arweinwyr addysgol yn ymwybodol o'r adnoddau ac yn eu defnyddio i lywio eu hymarfer	Adnoddau arweinyddiaeth o safon uchel, penodol i Gymru, wedi'u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i herio a mireinio eu dulliau o arwain yn barhaus
	2.2 Mewnwelediad ar gyfer Arweinwyr a Llunwyr Polisi	Comisiynir a chyhoeddir gwaith ymchwil newydd ac adolygiadau beirniadol o lenyddiaeth gyfredol ar agweddau allweddol ar bolisi ac ymarfer	Mae deunydd mewnwelediad yn ysgogi trafodaeth newydd ac yn llywio syniadau a chamau gweithredu ymhlith llunwyr polisi ac ymarferwyr	Mae polisi ac arferion arweinyddiaeth wedi'u seilio ar, a'u llywio'n uniongyrchol gan ymchwil a thystiolaeth o Gymru a gwledydd eraill
	2.3 Lles Arweinwyr Addysgol	Caiff cynigion strategol i fynd i'r afael a lles arweinwyr eu cyd-greu gan y system, gan gynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, yr haen ganol ac ymarferwyr presennol	Mae strategaeth les, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei chyhoeddi a'i gweithredu	Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a'i gefnogi'n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth cynaliadwy a gwydn sy'n gallu bod yn sbardun allweddol i newid parhaol, systemig
	2.4 Datblygu'r Gweithlu Strategol	Mae data cyfredol a defnyddiol ar recriwtio a chadw arweinwyr addysgol yn cael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gyhoeddi	Caiff cynigion strategol i fynd i'r afael a heriau recriwtio a chadw eu datblygu a'u mabwysiadu gan y system	Mae rolau arwain yn ddeniadol ac arweinwyr yn cael eu hysgogi i aros a datblygu o fewn y proffesiwn
Corfforaethol	3.1 Llywodraethu Effeithiol	Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi'i ailwampio a chylch cynllunio ar waith ar gyfer cylchoedd recriwtio pellach	Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith ar gyfer pob cyfarwyddwr gan sicrhau parhad ymarfer a strwythur llywodraethu sy'n perfformio'n dda	Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydliad uchel ei barch sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n gweithio ochr yn ochr a phartneriaid eraill yn yr haen ganol
	3.2 Swyddogaeth Weithredol	Cefnogir a herir cynllunio strategol a gweithredol gan archwilio trwyadl a gweithredu risg	Datblygu capasiti'r sefydliad gan sicrhau bod y blaenoriaethau strategol yn cael eu cefnogi'n dda gan adnoddau effeithiol	Swyddogaeth weithredol gadarn, effeithiol ac ystwyth
	3.3 Cyfathrebu a Marchnata	Strategaeth ddigidol wedi'i datblygu ymhellach sy'n cynnwys adnoddau amlgyfrwng	Parhau i ddatblygu'r proffil a'r negeseuon corfforaethol i sicrhau bod rôl yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn weladwy ac yn cael ei deall yn eang gan y system addysg	Mae gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol rôl unigryw, sydd wedi'i mynegi'n glir, a'i deall a'i gwerthfawrogi'n eang o fewn y system addysg yng Nghymru
	3.4 Rhanddeiliaid a Phartneriaethau	Darparu strategaeth randdeiliaid effeithiol	Rhanddeiliaid a phartneriaid yn siapio'r sefydliad drwy graffu ac eiriolaeth effeithiol	Cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid i hyrwyddo arweinyddiaeth a chefnogi system hunanwella, gan ymwreiddio arweinyddiaeth fel maes blaenoriaeth tymor hir sy'n pontio cylchoedd gwleidyddol

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Allwedd:

Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd

Arweinyddiaeth Mewnwelediad a Meddwl

Corfforaethol



Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau

agaa.cymru
nael.cymru